

# BLOG BLEDDYN

---



---

Postiwyd ar [Gorffennaf 26, 2012](#)

01 Os nad oeddet ti'n gwybod, dwi'n Gymro. Mae'n wir. Mae gen i  
02 dystysgrif geni a phopeth.  
03

04 Nid yn unig hynny, cefais fy ngeni i mewn i deulu oedd yn siarad  
05 Cymraeg. Wel, wedi dweud hynny, dwi'n olygu cefais fy ngeni i  
06 mewn i deulu penderfynodd rhoi eu plant i mewn i ysgol Cymraeg.  
07

08 Efallai pam fyddaf yn siarad Cymraeg byddai pob siaradwr Cymraeg  
09 arall yn gwingo mewn poen. Dyna sut fydda i'n teimlo pan fyddaf yn  
10 ceisio siarad Cymraeg. Gan nad yw fy ngallu yn yr iaith ddim mor  
11 uchel ag y hoffwn, dwi'n teimlo fod pawb yn barnu fi am fy niffyg  
12 sgiliau Cymraeg.  
13

14 Gallaf ddarllen yn iawn, dwi'n gallu ei ddeall yn berffaith. Ond  
15 mae yna un peth na allaf wneud yn hyderus, a dyna yw siarad ac  
16 ysgrifennu Cymraeg.  
17

18 Mae'n teimlo fel bod i gyd o'r bobl sy'n clywed fi yn beirniadu fi pob  
19 tro dwi'n siarad Cymraeg. Nid oes gen i syniad pam fod hyn. Dwi  
20 bob tro'n tybio pan dw i'n siarad Cymraeg i person fod y person  
21 yna, pwy bynnag ydynt, yn meddwl fy mod yn llofruddio'r iaith  
22 Gymraeg. Os ydy rhywun yn gwybod pam, atebion yn yr adran  
23 sylwadau, plis.  
24

25 Dwi wedi ysgrifennu llawer o erthyglau i Wicid, gyda rhai yn mynd  
26 ar CLIC [*gan gynnwys hwn, woop! – gol. cenedlaethol*]. Nid yw'r  
27 un o'r rhain yn Gymraeg. Mae nhw i gyd yn Saesneg. Hyd yn oed  
28 pam mae'r erthyglau hyn yn cael ei cyfieithu i Gymraeg, dim fi ydy  
29 hwnnw. Ac, am ryw reswm od, dwi ddim yn hapus gyda hyn.  
30

31 Hoffwn yn fawr iawn os byddwn yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg,  
32 wir ar. Ond gwae fi, mae fy sgiliau i roi brawddegau at ei gilydd  
33 yng Nghymraeg yn dirywio pob dydd, ac nid yw'n helpu fy mod  
34 mewn cwrs yn y brifysgol lle nad oes neb yn gwybod Cymraeg. A  
35 dwi ddim yn gwybod neb sy'n siarad Cymraeg yn y coleg chwaith.  
36 Damnia fo ac ati.

---